**LC614**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru    National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU    LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003**

Mae’r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a'r gweithdrefnau i'w dilyn ynglyn ag apelau yn erbyn hysbysiadau o'r fath ac yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i anghysondeb rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Y dyddiad y daw y Rheol i rym yn y testun Saesneg yw 1 Ebrill 2003 a’r dyddiad yn y testun Cymraeg yw 1 Mawrth 2003. Mae’r anghysondeb hwn yn codi yn y penawdau ar dudalen 3 yn ogystal â’r cyfeiriadau yn y testun yn rheoliad 1(1).

Gellir cywiro hyn trwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Mae'r Cydbwyllgor Offerynnau Statudol wedi nodi drafftio diffygiol mewn perthynas â’r rheoliadau cyfatebol yn Lloegr (SI 2002/2682). Mae'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliadau 8(3) a 9 o reoliadau Cymru. Dyma'r pwyntiau dan sylw -

- gellid dehongli bod 'dogfen' yn rheoliad 9 yn cynnwys datganiad rheoliad 8.

- Ond os felly, ni ellir anfon hysbysiad rheoliad 9 cyn anfon datganiad rheoliad 8, sydd felly'n groes i reoliad 8(3)(a) sy'n darparu ar gyfer anfon datganiad rheoliad 8 ar ôl hysbysiad rheoliad 9.

Ni ystyrir bod angen hysbysu'r Cynulliad o ddrafftio diffygiol, fodd bynnag, am y tybir bod yn rhaid dehongli bod rheoliad 9 ("pob dogfen sydd ei hangen i'w alluogi iddo i ystyried yr apêl") yn cyfeirio nid at bob dogfen sydd ei hangen dan y weithdrefn ond y rhai hynny sydd eu hangen i sicrhau bod yr apêl yn ddilys.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Chwefror 2003